# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Llun, 21 Tachwedd 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, C.Galsworthy, J.Henton, R.G.Jones, S.Paddison, C.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds a/ac A.J.Richards |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, C.John a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, D.M.Peters a/ac J.Hale |
| **Gwahoddedigion:** | D.Gwynne Euru Consulting<br>M.Stacy Associated British Ports<br>A.Harston Associated British Ports<br>A.Jones Associated British Ports |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Cyflwyno Cais Porthladd Rhydd

Croesawodd y Cadeirydd Andrew Harston, Alice Jones a Mike Stacy o Gymdeithas Porthladdoedd Prydain yn ogystal â David Gwynne o Eurus Consulting i'r cyfarfod.

Cyflwynodd swyddogion yr adroddiad a darparwyd gwybodaeth mewn perthynas â chais i lywodraethau Cymru a'r DU am Borthladd Rhydd a oedd yn cynnwys porth Port Talbot a phorth Aberdaugleddau a'r ardaloedd cyfagos.

Nododd aelodau'r camgymeriad yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, mewn perthynas â thudalen 10 a oedd yn dweud "Mae hyn yn cynnwys £21 miliwn (neu fwy o bosib)". Dylai darllen £25 miliwn.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch y goblygiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y ffaith y byddai £1m o gyllid gan y Llywodraeth ar gael ar gyfer datblygiadau. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai hwn yn swm untro i gefnogi'r cynigiwr i gefnogi'r cais o'r cam amlinellu i'r cam achos busnes terfynol yn unol â rheolau Llyfr Gwyrdd y Trysorlys. Byddai angen datblygu model busnes mewn perthynas ag unrhyw gostau parhaus.

Tynnodd aelodau sylw at y datganiad o argyfwng hinsawdd diweddar a gofynnwyd beth fyddai'r goblygiadau wrth adeiladu'r datblygiad hwn. Dywedodd swyddogion gydag unrhyw waith adeiladu byddai cynnydd mewn allyriadau o ganlyniad i draffig Cerbydau Masnachol Trwm, fodd bynnag, bydd y datblygiad er budd bioamrywiaeth a throsglwyddo i ynni adnewyddadwy a fyddai'n lleihau'r ôl troed carbon.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y costau a'r adnoddau posib. Tynnwyd sylw at y pwysau y mae swyddogion wedi'i brofi yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda'r pandemig a phrosiectau mawr eraill y mae'r cyngor wedi cofrestru ar eu cyfer. Roedd aelodau'n bryderus am y pwysau hwn. Cytunodd y Prif Weithredwr fod swyddogion wedi bod dan bwysau o ganlyniad i'r pandemig a phrosiectau eraill a rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai adnoddau'n cael eu hystyried yn barhaus wrth symud ymlaen.

## 4. <u>MYNEDIAD I GYFARFODYDD</u>

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

5. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Cyflwyniad Porth Rhydd - Atodiad B

Derbyniodd aelodau gyflwyniad gan Andrew Harston, Alice Jones o Gymdeithas Porthladdoedd Prydain a David Gwynne o *Eurus Consulting* mewn perthynas ag elfennau preifat yr adroddiad a nodwyd o fewn Cyflwyniad Porth Rhydd - Atodiad B.

6. **- SESIWN GYHOEDDUS -**

Penderfynodd yr aelodau symud yn ôl i sesiwn gyhoeddus.

7. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Cyflwyno Cais Porthladd Rhydd

Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r trafodaethau a chyfeiriwyd at yr argymhellion a restrwyd ar dudalen 12 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y diwygiad canlynol i bwynt bwled rhif 2 yn yr argymhellion gan yr aelodau:

'Rhoddodd aelodau awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Gweithredol, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, ac Aelodau'r Cabinet dros Gynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chysylltedd ac Adfywio'r Economi a Chymunedau l gytuno ar ddiwygiadau i'r Cais cyn ei gyflwyniad terfynol i Lywodraeth Cymru'

Yn dilyn y bleidlais, methodd y diwygiad ac felly ni chaiff ei gefnogi.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gwreiddiol fel y manylir isod gan yr aelodau:

Argymhellir, gan roi sylw dyledus i'r Asesiad Sgrinio Effaith Integredig:

- Bydd aelodau'n cymeradwyo cyflwyno cais am Borthladd Rhydd sy'n cynnwys porth Port Talbot a phorth Aberdaugleddau a'r ardaloedd cyfagos yn y ffurflen a ychwanegir at Atodiad B, yn destun unrhyw amrywiadau y bydd angen eu gwneud cyn ei gyflwyno.
- Bydd aelodau'n rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, gytuno ar

ddiwygiadau i'r cais cyn ei gyflwyniad terfynol i Lywodraeth Cymru

- Bydd aelodau'n cymeradwyo enwebiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel y Corff Atebol ar gyfer y Porthladd Rhydd arfaethedig.
- Bydd aelodau'n rhoi'r awdurdod i Arweinydd y Cyngor gyflwyno llythyr i Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu cefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o borthladd rhydd sy'n cynnwys porth Port Talbot a phorth Aberdaugleddau.
- Bydd aelodau'n rhoi'r awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, weithredu mewn ffordd a all fod yn angenrheidiol i hyrwyddo rhinweddau'r cais ar ôl ei gyflwyno hyd at benderfyniadau'r Gweinidogion ar lwyddiant y cais, neu fel arall.

Yn dilyn craffu, roedd aelodau'n gefnogol o drosglwyddo'r argymhelliad hwn i'r Cabinet.

8. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**